## Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf

## Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014 – 2020 Dwyrain Cymru: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw: Colette Price a David Letellier

Sefydliad (os yw'n berthnasol) : Cyfoeth Naturiol Cymru

ebost / rhif ffôn: Colette.price@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, david.letellier@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Eich cyfeiriad: Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Bydd yr ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad a nodir isod yn chwarae rhan bwysig wrth baratoi testun terfynol y Rhaglenni Gweithredol, y bwriadwn ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach yn 2013. Caiff ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad eu hystyried ochr yn ochr â safbwyntiau a fynegwyd mewn digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol amrywiol y bwriedir eu cynnal ar ddechrau 2013. Rydym yn ceisio barn pawb sydd â diddordeb.

**Manylion cyswllt**

Anfonwch ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad canlynol:

Is-adran Datblygu Rhaglenni
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu anfonwch e-bost i: WEFO-Post2013Programmes@wales.gsi.gov.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r tîm ar: 0300 062 8580

Bydd angen anfon ymatebion erbyn **23 Ebrill 2013**

Cynlluniwyd y cwestiynau canlynol er mwyn helpu i strwythuro'r ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori hon:

**<u>Dadansoddiad</u>**

**1. A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol o ran yr economi a'r farchnad lafur?**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | X | |
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

**Economi Carbon Isel:**

1. Mae gan CNC rai pryderon fod economi carbon isel yn cael ei restru fel dim ond bygythiad yn y dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i Lywodraeth Cymru i helpu i sefydlu Datblygu Cynaliadwy fel ei phrif egwyddor drefniadol.

   Mae CNC yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir bod gan ein hasedau naturiol rôl economaidd mewn sectorau sy'n datblygu, megis ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel. Fodd bynnag, teimlwn fod sectorau eraill a allai hefyd gydnabod rôl economaidd yr amgylchedd, fel twristiaeth.

**Twristiaeth:**

2. Mae CNC yn cefnogi'n gryf yr awgrym yn 1.20 y gallai Cymru fanteisio ar ei hasedau naturiol fel sail i dwf economaidd, yn cynnwys y buddion economaidd sy'n deillio o amgylchedd cyfoethog Cymru a'i threftadaeth unigryw drwy dwristiaeth. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i wireddu'r buddion hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amgylchedd a threftadaeth yn ymddangos yn gyfyngedig yn y Rhaglen arfaethedig.

3. Yn ei ddatganiad ar 8 Mai 2012, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd y byddai rhagdybiaeth yn erbyn defnyddio arian UE ar gyfer rhai meysydd buddsoddi. Un o'r meysydd hyn fydd mynediad wedi'i reoli i gefn gwlad a'r arfordir a chynlluniau i ddatblygu'r amgylchedd naturiol, hanesyddol a diwylliannol. Mae hyn yn ôl pob tebyg yn golygu na fydd rhaglenni 2014-2020 yn buddsoddi mewn twristiaeth er gwaethaf yr awgrym ym mharagraff 1.20.

4. Mae adroddiad terfynol "The Economic Case for the Visitor Economy" (Cynghrair Twristiaeth Cymru - Definitive Value Report ) gan Deloitte ac Oxford Economics a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010 yn amlygu pwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae'r cyfraniad drwyddo draw yn
   2009 (sy'n cynnwys effeithiau drwy'r gadwyn gyflenwi, buddsoddi cyfalaf a gwariant Llywodraeth) i gyfrif am £6.2bn o gynnyrch

mewnwladol crynswth (CMC), 13.3% o'r economi gyfan – o'i gymharu ag 8.6% yn Lloegr, 10.4% yn yr Alban a 4.9% yng Ngogledd Iwerddon.

5. Mae'r un adroddiad hefyd yn amlygu pwysigrwydd twristiaeth i gyflogaeth yng Nghymru. Roedd y cyfraniad drwyddo draw yn 2009 i gyfrif am 0.17m o swyddi yng Nghymru, 12.7% o'r gweithlu cyfan. Mae'r cyfraniad uniongyrchol yn cynnal tua 0.09m o swyddi, 6.9% o weithlu Cymru.

6. Yn wyneb hyn, byddem yn annog WEFO i ailystyried y safbwynt ar fuddsoddi yn yr amgylchedd naturiol, gan ddileu'r rhagdybiaeth yn erbyn defnyddio arian yr UE ar gyfer y sector hwn a nodi dangosyddion sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r economi twristiaeth.

**Risg Amgylcheddol:**

7. Cyhoeddodd datganiad y Dirprwy Weinidog ar 8 Mai 2012 ragdybiaeth hefyd yn erbyn ariannu prosiectau sydd â gweithgareddau rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn brif ffocws iddynt. Mae CNC yn bryderus y bydd hyn yn tanseilio'r gallu i baratoi ar gyfer yr heriau economaidd a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd.

8. Y cyfnod o fis Ebill i fis Mehefin oedd y gwlypaf ers dechrau cadw cofnodion a bryd hynny amcangyfrifwyd £0.5bn o golledion yswiriant oherwydd llifogydd. Gan ddefnyddio difrod llifogydd haf procsi ar gyfer y llifogydd diweddar ar draws y DU, rydym yn amcangyfrif bod y gost i ddiwydiant yn 2012 yn dod i gyfanswm o ryw £1bn erbyn hyn (Khan, Rhag 2012 - http://www.telegraph.co.uk/finance/newsbysector/banksandfinance/insurance/9728932/November-floods-push-insurance-losses-past-1bn.html). Mae'r datganiad hwn yn cadarnhau bod llifogydd yn llesteirio ffyniant economaidd.

9. Cafodd Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i wneud ymchwil i fuddion economaidd gwaith y rhaglen rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn nhermau buddsoddiad a'r effaith ar swyddi a ddiogelwyd, swyddi a grëwyd a'r gwerth crynswth a ychwanegwyd.

10. O'r £65 miliwn a oedd wedi'i wario adeg yr ymchwil, mae'r ymchwil yn dangos bod dros £41 miliwn (dwy ran o dair) wedi'i wario yng Nghymru. Mae hyn yn cynhyrchu £7.4 miliwn o Werth Ychwanegol Crynswth ac mae 130 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi cael eu cynnal neu'u creu yn sgil gwaith i reoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol.

11. Hefyd, gan fod contractwyr uniongyrchol yn isgontractio rhan o'r gwaith neu'n prynu nwyddau a gwasanaethau i mewn, a chan fod gweithwyr adeiladu'n gwario'u cyflogau yng Nghymru, mae'r effeithiau lluosydd yn ehangu, gydag 800 o swyddi pellach cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cynnal neu'u creu ar draws Cymru. Byddai £30 miliwn o Werth Ychwanegol Crynswth ynghlwm wrth hyn.

12. Amcangyfrifir bod 930 o swyddi wedi cael eu cynnal neu'u creu ar draws Cymru hyd yma o ganlyniad i'r gwaith adeiladu i reoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol.

13. Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i ailagor y ddeialog gyda WEFO ynglŷn â defnyddio cronfeydd strwythurol i warchod busnesau a chymunedau yng Nghymru rhag y perygl o lifogydd.

**Y Strategaeth**

**2. A ydych yn cefnogi'r weledigaeth, y nodau a'r amcanion strategol?**

| | X | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

14. Mae CNC yn croesawu'r gydnabyddiaeth ym mhara 1.22 'Twf a Swyddi' y bydd rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn ategu nod y Rhaglen Lywodraethu o leoli Cymru fel economi werdd, carbon isel. Fodd bynnag, nid yw carbon isel yn ymddangos wedyn yn y dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ond fel bygythiad – nid yw yno hefyd fel cyfle.

15. Rydym yn croesawu'r datganiad ym mhara 1.22 y bydd thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy yn amlygu'r angen i noddwyr prosiectau ddangos hefyd sut y mae eu prosiectau yn hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol. Rydym yn hapus i'ch helpu i ddatblygu mesurau ar gyfer noddwyr i ddangos cynaliadwyedd amgylcheddol prosiectau a chamau y gellir eu rhoi ar waith ar unrhyw brosiectau nad ydynt yn cyflawni o dan y thema hon unwaith y bydd y prosiect wedi cychwyn.

16. Mae CNC yn falch o weld bod Gweledigaeth y Strategaeth yn cyfeirio at dwf economaidd cynaliadwy ac mae'n hapus i'ch helpu i ddatblygu mwy o fanylder i ddiffinio hyn ac egluro sut y caiff ei asesu mewn prosiectau sy'n cael eu noddi gan y Cronfeydd Strwythurol.

17. Mewn perthynas â Nod y Strategaeth, rydym yn croesawu hyrwyddo datblygu cynaliadwy i ategu'r broses o drawsnewid i economi gwerth ychwanegol uchel a charbon isel. Awgrymwn eich bod hefyd yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae'r amgylchedd naturiol yn ei chwarae yn lles economaidd a chymdeithasol Cymru.

**3. A ydych yn cytuno â phrosesau integreiddio'r gwahanol ffrydiau ariannu Ewropeaidd?**

| | x | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn gytuno nac | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

yn anghytuno

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

18. Rydym yn cefnogi mwy o integreiddio, sy'n unol ag egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac yn cwmpasu agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Gallai integreiddio fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn prosiectau mawr ar raddfa'r dirwedd sy'n cwmpasu holl agweddau Datblygu Cynaliadwy, nid dim ond yr agwedd amgylcheddol.

19. Mae integreiddio rhwng ffrydiau ariannu yn ddymunol gan ei fod yn gallu arwain at synergedd sy'n hybu effeithiolrwydd gan wneud y mwyaf o werth y cronfeydd sydd ar gael.

20. Rydym yn cytuno â'r meysydd buddsoddi sy'n ategu'i gilydd a grybwyllir yn 1.33 ac rydym yn cytuno hefyd y gallai dull cyflwyno cydgysylltiedig fod o gymorth i noddwyr prosiectau a chynnig arbedion effeithlonrwydd i bawb dan sylw.

21. Byddem yn hapus i weld integreiddio agosach â dulliau ariannu eraill (ar wahân i'r Cronfeydd Strwythurol) ond mae gennym rai pryderon ynglŷn ag agweddau ymarferol y cynnig. Caiff LIFE ei reoli ar lefel yr UE a gallai fod yn anodd iawn paru amserlen ariannu LIFE â phroses y Cronfeydd Ariannol. Byddem yn croesawu trafodaethau gyda WEFO ar sut y gellir rheoli'r integreiddio hwn. Bydd rhaglen LIFE ar gyfer 2014-20 yn cynnwys Prosiectau Integredig fel blaenoriaeth – bydd y rhain yn cynnwys prosiectau mawr iawn ar lefel y dirwedd, o bosibl wedi'u cyfyngu i un neu ddau fesul Aelod Wladwriaeth. Bydd disgwyl i'r Prosiectau Integredig hyn ddefnyddio arian o ffynonellau Ewropeaidd, domestig neu breifat eraill i ategu arian LIFE i fynd i'r afael â materion amgylcheddol. Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i drafod gyda WEFO y cyfleoedd y mae prosiectau o'r fath yn eu cynnig.

**<u>Blaenoriaethau ERDF ac ESF</u>**

**4. A ydych yn cytuno â ffocws y blaenoriaethau?**

| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | x | |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

22. Rydym yn cydnabod bod y Cronfeydd Strwythurol wedi'u bwriadu i gefnogi swyddi a thwf, a'r gofyniad i ganolbwyntio mwy ar wireddu'r canlyniadau hynod bwysig hyn. Fodd bynnag, nid yw gwerth economaidd adnoddau naturiol Cymru a'u rôl mewn Datblygu Cynaliadwy wedi cael ei gynnwys ac, fel y dangoswyd yn ein hymateb i gwestiwn 1, mae hefyd yn cyfrannu at y canlyniadau hyn.

23. Mae para 1.41 yn disgrifio egwyddorion trosfwaol y Rhaglen. Awgrymwn y dylai Datblygu Cynaliadwy fod yn egwyddor drosfwaol yn hytrach nag yn thema drawsbynciol i'r Rhaglenni. Mae'r tair elfen o ddatblygu cynaliadwy - yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi - yn ategu'i gilydd, ac awgrymwn y dylid gweithio o blaid y tair gyda'i gilydd.

24. Byddem yn hapus i roi cyngor i WEFO ar y mater hwn.

## Themâu Trawsbynciol

**5. A ydych yn cytuno â'r ymagwedd a fabwysiadwyd ar gyfer y Themâu Trawsbynciol?**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |
| Cytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn gytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

***Datblygu Cynaliadwy fel Thema Trawsbynciol***

25. Rydym yn falch fod WEFO yn cydnabod bod angen sicrhau bod agweddau amgylcheddol a thymor hir prosiectau yn cael eu hystyried yn llawn a chredwn fod thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy yn darparu'r sylfaen i sicrhau mai Datblygu Cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol rhaglenni'r UE yng Nghymru.

26. Rydym yn cydnabod y bydd yn her asesu'r holl brosiectau yn erbyn meini prawf Cynaliadwyedd Amgylcheddol, a rhoi gwybodaeth a chyngor i noddwyr prosiectau ar ddechrau'r broses i wneud y prosiectau mor gynaliadwy â phosibl.

27. Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i barhau i weithio gyda WEFO i drafod, a rhoi cyngor ynglŷn â'r strategaeth yn ymwneud â thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy ar gyfer cyfnod rhaglenni 2014-2020.

## Trefniadau gweithredu

**6. I ba raddau y dylem dargedu adnoddau tuag at sectorau diwydiannol/busnes allweddol?**

| | | |
|---|---|---|
| | x | |
| Yn gyfan gwbl | I ryw raddau | Ddim o gwbl |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

28. Credwn ei bod yn rhesymol cadw mewn cof sectorau allweddol i dargedu adnoddau atynt. Awgrymwn fod rhywfaint o le i hyblygrwydd er mwyn ystyried cyfleoedd newydd, sy'n datblygu, dros y cyfnod

ariannu os na fydd prosiectau o’r sectorau allweddol yn dod ymlaen fel y bwriadwyd.

**7. I ba raddau y dylem dargedu adnoddau tuag at dwf economaidd mewn ardaloedd penodol?**

| Yn gyfan gwbl | I ryw raddau | Ddim o gwbl |
|---|---|---|
| | x | |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

29. Wrth dargedu’n ofodol mae angen bod yn ofalus i beidio â darparu cymhellion gwrthnysig sy’n golygu bod cwmnïau sefydledig yn symud eu gwaith i fannau lle byddant yn cael nawdd – yn aml nid yw ‘dadleoli’ o’r fath yn creu swyddi ychwanegol, nid yw ond yn symud lleoliad swyddi.

**8. Sut allwn ni gynyddu manteision Cyllid Strwythurol Ewropeaidd a’r rheini a ddaw o fynd ar drywydd Dinas-Ranbarthau?**

30. Dim sylw

**9. I ba raddau y dylem ddefnyddio cyllid ad-daladwy yn hytrach na grantiau?**

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

31. Dim sylw

**10. Beth ddylai'r cydbwysedd fod rhwng adnoddau ERDF ac adnoddau ESF yn eich barn chi (yn nhermau canran)?**

| **ERDF** | **ESF** | **Ticiwch isod** |
|---|---|---|
| 75% | 25% | |
| 60% | 40% | |
| 50% | 50% | |
| 40% | 60% | |
| 25% | 75% | |
| | | Arall (nodwch) |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

32. Dim Sylw

**11. Pa amgylchiadau fyddai'n cyfiawnhau trosglwyddo adnoddau rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru?**

33. Dim sylw

**12. Sut y gellir symleiddio'r ffordd y caiff rhaglenni eu gweithredu yn y dyfodol?**

34. Yn y rhaglen gyfredol, un rhwystr mawr rhag symleiddio ar lefel y Bartneriaeth drwyddi draw fu'r anhawster i sicrhau Arian Cyfatebol, a hefyd yr amser y mae sefydliadau yn ei dreulio yn ceisio arian cyfatebol. Mae hyn wedi golygu oedi cyn rhoi prosiectau ar waith mewn llawer o achosion. Rydym yn gwybod bod mudiadau trydydd sector ac asiantaethau sy'n gweithredu fel noddwyr arweiniol wedi cael problemau. Rydym yn hapus i rannu'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu yn y cyswllt hwn gyda chi a chredwn fod lle i wella a symleiddio yn y cylch nesaf. Rydym yn hapus i helpu gyda hyn.

35. Gall canolbwyntio ar yr hyn a alwyd gan adolygiad Guilford yn 'ddull rheoli portffolio' fod yn help i symleiddio. Mae hyn yn golygu lle mae amcan cyffredinol (e.e. creu mwy o swyddi mewn economi) yn cael ei wireddu drwy gymysgedd o brosiectau. Caiff llwyddiant ei fesur yma ar lefel y portffolio drwyddo draw. Yn bwysig, mae yma gydnabyddiaeth y bydd rhai prosiectau a gweithgareddau unigol yn tan neu'n gor berfformio neu hyd yn oed yn methu'n gyfan gwbl. Hefyd, mae ffocws y prif weithgaredd monitro ar ganlyniad(au) y portffolio drwyddo draw. Rhoddir llai o flaenoriaeth i adolygu prosesau a rhoi cyfrif am ganlyniadau darfodedig, felly mae llai o faich gweinyddol ar y gweithredu allweddol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**13. I ba raddau y mae lle i symleiddio ein Cytundebau Partneriaeth?**

| | | |
|---|---|---|
| | | x |
| Yn gyfan gwbl | I ryw raddau | Ddim o gwbl |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

36. Gan ei bod yn dra phosibl mai hwn fydd y cylch mawr olaf o arian UE a gaiff Cymru, y priod nod allweddol yw gwneud yn siŵr fod gwaith gwerthfawr yn cael ei nodi a'i weithredu ar lawr gwlad, cyn gynted â phosibl. Gallai ad-drefnu'r systemau a'r prosesau lesteirio hyn. Credwn ei bod yn well cadw at y systemau presennol y mae pobl yn eu deall yn dda, y mae modd eu gwella yn ystod y cyfnod gweithredol. Bydd hyn yn help i sicrhau gweithredu llyfn. Felly, argymhellir y dylid cadw'r ffocws ar brosiectau mawr sy'n cael eu rheoli a'u 'noddi' gan noddwr arweiniol yn y cylch ariannu nesaf.

**14, Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

**37. Seilwaith Gwyrdd:**

Mewn gohebiaeth ym mis Hydref 2012 at Gyngor Cefn Gwlad Cymru, nododd y Dirprwy Weinidog dros raglennï'r UE ar y pryd, Alun Davies, ei ddiddordeb mewn ymchwilio ymhellach i sut y gall Seilwaith Gwyrdd fod yn sail i bob prosiect buddsoddi mawr a wireddir drwy arian ERDF.

Rydym yn credu y byddai'n helpu cynnwys y diffiniad a ddatblygwyd gan Natural England. Rhwydwaith a gaiff ei gynllunio a'i wireddu'n strategol yw Seilwaith Gwyrdd sy'n cynnwys yr ystod ehangaf o fannau gwyrdd a nodweddion amgylcheddol eraill o safon uchel. Dylai gael ei ddylunio a'i reoli fel adnodd amlswyddogaethol sy'n gallu cyflenwi'r gwasanaethau ecolegol hynny a'r buddion ansawdd bywyd y mae ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu eu hangen fel sail i gynaliadwyedd. Dylai'r dylunio a'r rheoli ar y rhwydwaith hefyd barchu a chyfoethogi cymeriad a natur unigryw ardal o ran cynefinoedd a'r mathau o dirwedd.

Mae'n cynnwys:

**Parciau a Gerddi**: Parciau trefol, parciau gwledig a rhanbarthol, gerddi ffurfiol
**Mannau Gwyrdd Amwynder**: Mannau hamdden anffurfiol, mannau gwyrdd o gwmpas tai, gerddi domestig, meysydd pentrefi, tir comin trefol, mannau achlysurol eraill, toeau gwyrdd
**Mannau gwyrdd trefol naturiol a lled-naturiol**: Coetir a phrysgdir, glaswelltir (e.e. twyndir a dolydd), rhostir neu weundir, gwlyptiroedd, dŵr agored a rhedegog, tir gwastraff a thir yr aflonyddwyd arno), cynefinoedd craig noeth (e.e. clogwyni a chwareli)
**Coridorau gwyrdd:** – Afonydd a chamlesi yn cynnwys eu glannau, coridorau ffyrdd a rheilffyrdd, llwybrau beicio, llwybrau i gerddwyr, a hawliau tramwy
**Eraill:** Rhandiroedd, gerddi cymunedol, ffermydd dinas, mynwentydd

Ymysg manteision economaidd Seilwaith Gwyrdd mae prisiau tai uwch, mewnfuddsoddi, twristiaeth a chynhyrchiant llafur (Microeconomic Evidence for the Benefits of Investment in the Environment – Natural England)

Byddai CNC yn croesawu cyfle i drafod y cysyniad o Seilwaith Gwyrdd gyda WEFO fel sail i cyfnod rhaglennu 2014-2020.

Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐